



Mae Cronfa Gymunedol Pen y Cymoedd yn cynrychioli **buddsoddiad cymunedol lleol** uniongyrchol gan Brosiect Ynni Gwynt Pen y Cymoedd yn yr ardal sy'n gwsteia'r prosiect yng Nghymoedd Afan, Cydon, Nedd a Rhondda uchaf. Dyma gronfa gymunedol ynni gwynt fwyaf y Deyrnas Unedig, gan ddarparu tuag £1.8m bob blwyddyn dros fywyd gweithredu'r fferm wynt o tuag 20 mlynedd.

## Y Gronfa 'Grantiau Bychain'

Mae'r Gronfa hon yn agored i geisiadau am grantiau unigol gwerth hyd at £5,000 i gefnogi agweddau pwysig ar fywyd cymunedol. Er enghraifft, gallai'r rhain gynnwys: prynu eitemau bach o gyfarpar; gwaith cyfalaf bach; gweithgareddau, digwyddiadau a phrosiectau; busnesau newydd; cyrsiau hyfforddi; prosiectau peilot.

## Y Gronfa 'Gweledigaeth'

Mae'r Gronfa "Gweledigaeth" yn canolbwyntio ar adnabod a chefnogi prosiectau sy'n cyfrannu at gyflwyno gweledigaeth y gymuned.

Mae'n hyblyg, ac yn annog ymgeiswyr i ystyried **pob** posibilrwydd ar gyfer ariannu prosiect cynaliadwy. Yn ystod arolygon o ddrws i ddrws, gwelwyd dyhead y gymuned leol i'r gronfa edrych y tu hwnt i gyllid grant. Disgwylir y bydd ymgeiswyr wedi ystyried yn union pa fath o gyllid y mae ei angen arnynt ac y gallant gyfiawnhau hynny.

Bydd angen i ymgeiswyr ddangos bod eu menter yn:

- creu buddion i'r gymuned trwy helpu mynd i'r afael ag un neu fwy o'r blaenoriaethau a ddisgrifir yn y weledigaeth dros y tymor hwy
- cynaliadwy, gan gynllunio at yr hir dymor, ac am lwyddiant, twf a mwyafu gwerth a buddion
- cynrychioli gwerth am arian
- meddu ar gynllun busnes clir a darbwyllo, ac
- mai dyma'r prosiect gorau y gall fod

Mae'n broses gystadleuol - dim ond y prosiectau gorau a gaiff eu hariannu - prosiectau sydd wedi cynllunio a pharatoi ac a all ddangos sut maent yn edrych tuag at y dyfodol o ran cynllunio anghenion cymunedol fel a fynegir yn y weledigaeth gymunedol.

## Disgrifir cyfleoedd o dan y penawdau a ganlyn:

1. Swyddi lleol a'r economi
2. Trafnidiaeth a chysylltiadau
3. Iechyd a lles bod yn actif - yn feddyliol ac yn gorfforol
4. Diogelwch a thai
5. Mannau cymunedol
6. Yr Amgylchedd
7. Twristiaeth
8. Diwylliant
9. Ysgolion a hyfforddiant

Nodau **hir dymor** - yr hyn y mae'r gymuned eisiau ei weld yn yr hir dymor

Cyfleoedd **tymor byr** - pethau a allai gael effaith gadarnhaol yn eithaf cyflym.

Cyfleoedd **ar draws rhwydweithiau/ardaloedd** - pethau y gellir eu cyflwyno'n well trwy ddull **rhwydweithio, ar draws ardal ehangach / yr ardal gyfan**. Materion neu themâu sy'n berthnasol i fwy nag un gymuned.

Prosiectau **proffil uchel** - syniadau mawr sydd wedi eu hadnabod, mae'n debygol mai buddsoddiadau cyfalaf yw'r rhain, a fydd yn helpu denu prosiectau, cwsmeriaid a gwasanaethau deilliedig, a / neu gyflwyno manteision lluosog. Mae'n rhaid i'r mathau hyn o brosiectau ddangos buddion mawr, gan eu bod yn debygol y bydd angen symiau mawr o arian i'w gweithredu.



# 1. SWYDDI LLEOL A'R ECONOMI

## 1.1 DATBLYGU'R CYNNIG MANWERTHU LLEOL A'R STRYD FAWR

Uchelgais Hir Dymor	A. Strydoedd mawr/canolfannau pentref deniadol ac wedi eu cynnal a'u cadw'n dda, sy'n dathlu treftadaeth leol ac yn darparu amgylchedd gwych ar gyfer datblygu lleol
	B. Cymunedau hunangynhaliol - gall cymunedau fodloni eu holl anghenion sylfaenol yn lleol, a manteisio i'r eithaf ar adnoddau lleol (gan gynnwys ailgylchu a gwellgylchu "gwastraff" e.e. tecstilau, dodrefn)
Cyfle Tymor Byr	C. Cynllunio cymunedol, i gytuno ar gamau gweithredu gwelliannau cynaliadwy
	Ch. Gweithio gyda mudiadau busnes lleol i annog y sector masnachol a manwerthu i fuddsoddi mewn adeiladau ac amgylchedd gwell
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	D. Creu rhaglenni gweithgareddau i annog cyfnewid cynyddol rhwng y cymoedd ac i ddenu ymwelwyr o bell, gydag isadeiledd sy'n annog hynny - llwybrau ac ati

## 1.2 ADFYWIO CYMUNEDOL

Uchelgais Hir Dymor	A. Asedau cymunedol sydd wedi eu rhedeg yn y ffordd fwyaf fforddiadwy posib e.e. trwy ddod â grwpiau a chyfleusterau ynghyd i wella effeithlonrwydd, defnyddio pŵer prynu ar y cyd ac ati
Cyfle Tymor Byr	B. Cyfeirio'r gymuned at gyngor a chefnogaeth i wneud cyfleusterau'n fwy effeithlon a chynaliadwy
	C. Datblygu modelau busnes a hyfforddiant ar gyfer asedau cymunedol pwysig i weld sut y gallant gynnal eu hunain neu dyfu i fod yn busnes yn y dyfodol
	Ch. Ymgrych i ennyn diddordeb pobl leol mewn datblygu'r dyfodol a gwasanaethau yn eu hardal
Potensial am Broffil Uchel	D. Gweithredu system cyfnewid credydau amser i bobl leol sy'n ymgymryd â chynlluniau gwella lleol (credydau i'w cyfnewid yn lleol)

## 1.3 YMDEIMLAD O LE

Uchelgais Hir Dymor	A. Adeiladu ar gymeriad y lle - gan ei werthfawrogi a'i dathlu a'i wneud yn rhan o'r ffordd y mae'r gymuned a'r ardal yn datblygu yn y dyfodol
	B. Adeiladu unrhyw ddyluniad newydd o gwmpas y cymeriad presennol a hefyd gwella manau cyhoeddus (gwneud asedau'n wyrdd, eu cynnal a chadw a'u hadfer, gwerthfawrogi adeiladau a chyfleusterau hanesyddol)
	C. Gwneud gwell defnydd o asedau hanesyddol ac adeiladu sgiliau a galluoedd fel bod ymdeimlad o le'n ychwanegu gwerth at y profiad o fod yma - gweithio, byw, ymweld
Cyfle Tymor Byr	Ch. Cynyddu ymwybyddiaeth leol o'r gwerth y mae'r cymeriad a'r dreftadaeth sydd o'u cwmpas yn ei gynnig fel bod y gymuned yn cysylltu â'r amgylchedd lleol
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	D. Cydnabod a gwerthfawrogi treftadaeth a rennir yr ardal a'r rôl y gall ei chwarae mewn adfywio llwyddiannus
	Dd. Defnyddio tir segur e.e. ar gyfer rhandiroedd cymunedol, gerddi, "Pyrth" i'r ardal/pentrefi
Potensial am Broffil Uchel	E. Cysylltu gweithgareddau/asedau diwylliannol â threftadaeth yr ardal ar gyfer twristiaeth e.e. canolfan ddiwylliannol uchel ei phroffil i'r ardal, digwyddiadau ac ati
	F. Canolfan ynni - yn dehongli hanes hir yr ardal, hyd at heddiw a'r tu hwnt.

	Ff. Dathlu "bri" yr ardal - pobl a lleoedd - ac adeiladu ar y cysyniad hwn ar draws yr ardal gyfan
	G. Prosiect "cyfalaf" mawr e.e. sgïo neu sipio ar draws cwm, beicio trwy dwnnel mynydd - datblygu atyniad a chyfleuster mawr y gall cynigion eraill ddatblygu o'i gwmpas.
<b>1.4 LLWYBRAU CERDDED A BEICIO A LLEOEDD SY'N CREU CYSWLLT RHWNG CYMUNEDAU</b>	
Uchelgais Hir Dymor	A. Rhwydwaith cyflawn o lwybrau beicio a cherdded sy'n cael ei ddefnyddio a'i gynnal a chadw'n dda, gan greu cyswllt rhwng cymunedau a buddion twristiaeth
	B. Ailddatblygu rhwydweithiau twunnel a chamlas
	C. Cymunedau mwy actif
Cyfle Tymor Byr	Ch. Marchnata a hysbysebu rhwydweithiau presennol yn well i gynyddu defnydd
	D. Uwchraddio traciau presennol
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	Dd. Rhwydweithiau lleol cyflawn, gan gynnwys edrych ar gyfleoedd llety cysylltiedig posib (e.e. gwerysilla)
	E. Creu buddion trwy lwybrau i'r holl gymunedau
Potensial am Broffil Uchel	F. Canolfan rhagoriaeth beicio i'r anabl a chynhyrchu cyfarpar beicio, gyda chyfleoedd technoleg ac arloesedd sy'n gysylltiedig â phrifysgol leol
	Ff. Defnyddio'r fferm wynt fel ased twristiaeth ac addysg
<b>1.5 DATBLYGU MANNAU CYHOEDDUS O GWMPAS YR ARDAL</b>	
Uchelgais Hir Dymor	A. Cynnal llwybrau hanesyddol hirach
	B. Cysylltu cymunedau a phentrefi
	C. Datblygu twristiaeth
	Ch. Datblygu rhwydwaith o lwybrau natur
	D. Gwneud bod yn iach yn haws
Cyfle Tymor Byr	Dd. Gwelliannau diogelwch/gofalu am yr ardal
	E. Gwella arwyddion
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	F. Ymchwilio i'r cyfle i gysylltu cymunedau a phentrefi a gwella rhwydweithio/cydweithredu rhyngddynt (gwaith a chymdeithasol, rhannu cyfleusterau)
Potensial am Broffil Uchel	Ff. Syniadau mawr i ddenu mathau newydd o ymwelwyr
<b>1.6 CYFLEUSTERAU CYFLOGAETH, CEFNOGAETH AC ISADEILEDD CYFLOGAETH AR GYFER BUSNESAU</b>	
Uchelgais Hir Dymor	A. Amrywiaeth o swyddi ansawdd uchel a chynaliadwy
	B. Creu math gwahanol o "hyb" i'r cymoedd (e.e. TG, diwydiant creadigol, tecstilau, diddordebau awyr agored, yr amgylchedd, sgiliau adeiladu)
	C. Gweithlu uchel ei gymhelliad a hyderus gyda sgiliau craidd da
	Ch. Menywod a gwaith - cynyddu cyfran y menywod sy'n weithgar yn economaidd
	D. Cael y genhedlaeth hŷn, pobl anabl, bregus ac ifainc i mewn i'r gwaith
	Dd. Cydlynu'r hyfforddiant sydd ar gael yn well
Cyfle Tymor Byr	E. Busnes ac entrepreneuriaid sy'n gwneud gwell defnydd o'r we
	F. Gwella sgiliau TG
	Ff. Helpu busnesau gyda chost cyflogaion newydd

	G. Rhaglen hyfforddiant gwasanaethau cyhoeddus mewn gwasanaethau allweddol (amgylcheddol, cymdeithasol, iechyd, tai, gwasanaethau) - potensial i gefnogi twf mentrau lleol newydd
	Ng. Ymgrych i hyrwyddi manteision gweithio i bobl ifainc (e.e. cynlluniau gwaith gwyliau â thâl)
	H. Cynyddu sgiliau pobl sydd eisoes yn gweithio / Gwellgylchu adnoddau lleol
	I. Mapio'r gefnogaeth hyfforddiant a chyflogaeth a gynigir yn lleol ac archwilio pa fylchau y mae angen ymdrin â nhw
	L. Datblygu cyfleoedd hyfforddiant seiliedig ar sectorau
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	Ll. Gwella'r isadeiledd rhyngrwyd yn yr ardal
	M. Creu swyddi mwy lleol ac ar draws ardaloedd (menter gymdeithasol, diwydiant preifat - ystod o opsiynau)
	N. Darparu mynediad/cynyddu ymwybyddiaeth o gefnogaeth/ymdrech yr "Academi Pŵer"
Potensial am Broffil Uchel	O. Adeiladu ar asedau lleol allweddol (amgylchedd, ynni)
	P. Rhaglen sgiliau ac addysg ar draws yr ardal i wella mynediad i addysg a hyfforddiant, wedi'i chysylltu â'r farchnad swyddi a chymhwysu'r sgiliau hynny'n ymarferol
<b>1.7 ISADEILEDD BUSNES</b>	
Uchelgais Hir Dymor	A. Gwneud yr ardal yn fwy deniadol i fuddsoddiad busnes, trwy daclo ardaloedd segur a diffaith mewn cymunedau a'u defnyddio mewn ffordd fuddiol
Cyfle Tymor Byr	B. Mapio ardaloedd o fewn cymunedau y mae angen eu taclo i wella'r argraff o'r ardal
	C. Peilota cynllunio'r sector cymunedol a masnachol i gytuno ar raglen i ddatblygu'r ardal, a sut i wneud defnydd da o fannau lleol (segur, diffaith ac ati)
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	Ch. Sefydlu tîm i daclo mannau segur neu ddiffaith mewn cymunedau, gan greu swyddi a hyfforddiant trwy'r rhaglen
	D. Gwella cysylltiadau cludiant
<b>1.8 DATBLYGU PROSIECTAU</b>	
Uchelgais Hir Dymor	A. Mynediad i seilwaith ariannol, a'r offer a sgiliau i'w ddefnyddio
	B. Diweddarau gwasanaethau ariannol lleol
Cyfle Tymor Byr	C. Mynediad i delerau ariannu sicr a ffafriol
	Ch. Clybiau bancio a redir gan undebau credyd mewn ysgolion
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	D. Cefnogi datblygu gwasanaeth bancio teithiol
<b>1.9 HYFFORDDIANT CYFLOGAETH</b>	
Uchelgais Hir Dymor	A. Gweithlu, sector busnes a menter gymdeithasol mwy medrus a gwydn yn yr ardal
Cyfle Tymor Byr	B. Sefydlu anghenion mentrau lleol a darparu hyfforddiant fforddiadwy (e.e. TG, tymor byr) i wella gweithgareddau entrepreneuraid, gan alluogi busnesau i amrywiaethu a thyfu
	C. Annog busnesau i ddeall a rheoli eu hadnoddau'n well (amgylcheddol - dŵr, ynni ac ati)
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	Ch. Ennyn diddordeb busnesau lleol mewn cynlluniau peilot dysgu cymunedol lleol a rhoi ysgogiadau iddynt ddatblygu gweithlu mwy medrus yn lleol
<b>1.10 CEFNOGI MENTRAU CYMDEITHASOL A BUSNESAU NEWYDD</b>	

Uchelgais Hir Dymor	A. Datblygu cymunedau mwy mentrus ac entrepreneuriaidd
	B. Datblygu amrediad fforddiadwy a dymunol o adeiladau ar gyfer busnesau newydd a rhai mwy sefydledig
	C. Gwell mynediad i gyllid ar gyfer busnesau newydd
	Ch. Sefydlu parth menter gymdeithasol gan ei wneud yn haws pontio i gyflogaeth (mwy o ddisgresiwn lleol gyda gweinyddu'r system budd-daliadau) e.e. "cyfnod braint budd-daliadau"
Cyfle Tymor Byr	D. Model Parthau Gwella Busnes (BID)
	Dd. Trosglwyddo asedau cymunedol fel niwclews ar gyfer busnesau newydd
	E. Cynyddu ymwybyddiaeth o fecanweithiau a modelau cefnogaeth presennol
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	F. Gwasanaethau cyngor a mentora busnes o safon mewn un alwad
	Ff. Defnyddio a thyfu rhwydweithiau cymunedol ar draws y cymoedd i gynyddu mewnfuddsoddi
	G. Defnyddio a hysbysebu asedau a chyfleoedd e.e. radio lleol, sector addysg a chyhoeddus, busnes, siambrau masnach ac ati
Potensial am Broffil Uchel	Ng. Cynllun ariannu busnes ar draws y cymoedd ar gyfer mentrau cymdeithasol a busnesau newydd
	H. Defnyddio rhwydweithiau ynni presennol i ddenu cwmnïau TG newydd
	I. Datblygu cynlluniau ad-dalu ymwelwyr i adeiladu a thyfu cyfleoedd busnes a datblygu strategaeth a strategaeth ymadael yn dilyn buddsoddiad yn yr ardal gan yr UE (marsiantiaeth, hyrwyddo, cynllunio hir dymor)

## 2. TRAFNIDIAETH A CHYSYLLTIADAU

### 2.1 ISADEILEDD TRAFNIDIAETH A CHYSYLLTIADAU TEITHIO

Uchelgais Hir Dymor	A. Cludiant ar bob amser (o'r dydd a'r flwyddyn) ar draws yr ardal
	B. Creu rhwydweithiau trên newydd yn y cymoedd
	C. Datblygu twristiaeth trên ager
Cyfle Tymor Byr	Ch. Treialu/peilota datrysiadau teithio (e.e. cysylltiadau rhwng clybiau ieuenctid ar draws yr ardal; cynllun / asiantaeth cludiant cymunedol
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	D. Ystyried datrysiad teithio ar draws yr ardal - sy'n gysylltiedig â'r gwaith
	Dd. Cyswllt Bws â'r Parc Cenedlaethol - cyswllt ag anghenion twristiaeth
Potensial am Broffil Uchel	E. Ymchwilio i opsiynau teithio creadigol, hyblyg cymunedol (nid bysiau'n unig)
	F. Cynnig ysgoloriaeth ar gyfer cludiant i addysg
	Ff. Cludiant sy'n hunangynhaliol/talu ei gostau ei hun
	G. Datblygu cynllun W2W (olwynion i'r gwaith gyda chefnogaeth i hurio moped) i annog symudedd y gweithlu

### 2.2 PRESENOLDEB AR-LEIN A CHYSYLLTEDD RHYNGRWYD

Uchelgais Hir Dymor	A. Elwa o'r oes ddigidol - er datblygiad economaidd a chydlyniant a chysylltiadau cymunedol
Cyfle Tymor Byr	B. Gwellgylchu a chynnal sgiliau TG
	C. Datblygu sgiliau a hyder TG i'w cymhwyso'n ymarferol (siopa, taclo unigrwydd, busnes, cael mynediad at y "bargeinion gorau", bancio)
Potensial am Broffil Uchel	Ch. Defnyddio isadeiledd PyC presennol i ddarparu cysylltedd diwifr gwell (i'w ddefnyddio ar gyfer apiau, twristiaeth, addysg)

## 3. IECHYD A LLES



### 3.1 HYRWYDDO IECHYD A LLES

Uchelgais Hir Dymor	A. Cymunedau sy'n fwy iach ac actif
	B. Cynlluniau "cynaliadwy" sy'n llwyddo i newid ffyrdd o fyw yn y cymunedau hyn
	C. Mwy o fywyd awyr agored
Cyfle Tymor Byr	Ch. Cyfeiriadau gan y GIG at fusnesau preifat i ysgogi cynlluniau peilot gyda'r mentrau a awgrymir
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	D. Buddsoddiad mewn "gweithgareddau" ysgogol newydd yn yr ardal e.e. codi pwysau, gwersyll ymarfer corff, campfa werdd
Potensial am Broffil Uchel	Dd. Sut ydych chi'n gwneud hwn yn gynaliadwy?
	E. Partneriaethau newydd rhwng gwasanaethau cyhoeddus a busnes

### 3.2 CEFNOGAETH IECHYD MEDDWL

Uchelgais Hir Dymor	A. Gwell ymwybyddiaeth a chefnogaeth iechyd meddwl mewn cymunedau
Cyfle Tymor Byr	B. Treialu'r model Glasgow Steps ar raddfa fach
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	C. Buddsoddiad mewn gwasanaethau amgen mewn cymunedau - cwnsela, ymwybyddiaeth ofalgar, cefnogaeth gan gymheiriaid
	Ch. Hyfforddiant i unigolion allweddol y gymuned mewn iechyd meddwl

### 3.3. GOFAL I'R HENOED

Uchelgais Hir Dymor	A. Poblogaeth oedrannus sydd wedi'i hintegreiddio'n well, gan alluogi pobl i aros yn eu cartrefi
	B. Cefnogir gofalwyr yn well i leihau'r baich arnynt
Cyfle Tymor Byr	C. Clybiau cinio gan ddefnyddio cyfleusterau arlwygo ysgolion
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	Ch. Estyn cynlluniau llwyddiannus presennol ar draws ffiniau awdurdodau lleol i gefnogi mentrau cymdeithasol llwyddiannus
	D. Sicrhau y caiff ei wneud mewn ffordd sy'n cefnogi cadw a chreu swyddi lleol

### 3.4 CEFNOGAETH IECHYD A LLES GYMUNEDOL

Uchelgais Hir Dymor	A. Gellir ymdrin â materion iechyd a chymdeithasol lefel isel yn lleol - cefnogaeth ataliol neu ymyrraeth gyflym. Mae'n cyfrannu at gymuned wydn
	B. Mae'n haws i'r gymuned gael ffyrdd mwy iach o fyw
	C. Dechrau'n ifanc i daclo problemau hir dymor
	Ch. Cefnogi gweithgareddau diwylliannol ac ysbryd cymunedol
Cyfle Tymor Byr	D. Cefnogi gofal plant yn yr ardal
	Dd. Rhwydwaith eiriolwyr cymunedol
	E. Ystod ehangach o gyfleoedd yn lleol i fod yn iach, gweithgar ac yn gysylltiedig
	F. Rhaglen gweithgareddau awyr agored i grwpiau lleol ymgymryd â nhw yn yr ardal leol (e.e. y Bannau)
	Ff. Peiriannau diffibrilio ac arwyddion mewn busnesau lleol (siopau, tafarndai ac ati)

Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	G. Cydlynad ardal leol - rhwydwaith o bobl i gyfeirio at gynigion a gwasanaethau presennol - gan feddwl y tu hwnt i seilos (e.e. campfeydd lleol yn gweithio gydag ysgolion, gweithgareddau diwylliannol sy'n gysylltiedig â chartrefi gofal a gwasanaethau i'r henoed).
Potensial am Broffil Uchel	Ng. Gwaith gwell ar y cyd rhwng y sectorau preifat a chyhoeddus a'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau ataliol a chymdeithasol

## 4. DIOGELWCH A THAI



### 4.1 CARTREFI CLYD

Uchelgais Hir Dymor	A. Adnewyddu stoc tai hen i daclo tlodi tanwydd a gwastraffu ynni
	B. Defnyddio adnoddau tanwydd lleol (e.e. pren) yn well
Cyfle Tymor Byr	C. Defnyddio llai o ynni - newid ymddygiad
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	Ch. Datblygu cyfleoedd cynhyrchu a busnes lleol mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni


### 4.2 AMGYLCHEDD MWY DIOGEL

Uchelgais Hir Dymor	A. Mae pobl yn teimlo'n ddiogel i fwynhau'r asedau o fewn ac o gwmpas eu cymuned
Cyfle Tymor Byr	B. Cynllun goleuadau solar peilot mewn gerddi lleol
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	C. Cymryd camau yn erbyn tipio sbwriel a beiciau oddi ar y ffordd
Potensial am Broffil Uchel	Ch. Goleuo dinesig a bwerir gan ynni adnewyddadwy

## 5. MANNAU CYMUNEDOL


### 5.1 MANNAU CYMUNEDOL Y GOFALIR AMDANYNT

Cyfle Hir Dymor	A. Mannau cymunedol (dan do ac awyr agored) sy'n cydweddu ag anghenion y gymuned (lle i bobl ifainc, hybiau iechyd, rhwyddineb defnyddio gan bobl anabl etc.)
	B. Adeiladau a lleoedd sy'n addas i'r diben
	C. Datblygiadau'r dyfodol i gael eu dylunio gan gadw'r anghenion iawn mewn cof - cynllunio cymunedol
	Ch. Darparu cyfleusterau a chludiant cymunedol cynaliadwy er mwyn i grwpiau o bob oedran gwrdd ynddynt
Cyfle Tymor Byr	D. Gwneud yr ardal yn fwy deniadol yn weledol ac yn ddefnyddiol (garddio ac ati)
	Dd. Ystyried defnyddio tir segur mewn cymunedau yn y dyfodol
	E. Ariannu cynlluniau gwarchod y gymdogaeth
	F. Mapio grwpiau a chyfleusterau posib yn yr ardal i ddeall yr angen
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	Ff. Rhannu adnoddau a dysgu ar draws cymunedau a chronni'r gefnogaeth sydd ar gael i wneud cynllunio cymunedol
	G. Cynlluniau cludiant a rennir

	Ng. Datblygu rhwydwaith o arbenigwyr cynnal a chadw
<b>5.2 ADEILADAU CYMUNEDOL</b>	
Cyfle Hir Dymor	A. Rhwydwaith cynaliadwy o adeiladau cymunedol a ddefnyddir yn helaeth
	B. Hyrwyddo ac adfer adeiladau hanesyddol a chyd-destun hanesyddol yr ardal
	C. Hybiau amlddefnydd
	Ch. Canolfannau addysg (gan gynnwys addysg awyr agored, llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol)
	D. Adeiladau a bwerir gan ynni adnewyddadwy
Cyfle Tymor Byr	Dd. Arolwg o'r stoc adeiladau cymunedol presennol, ac adeiladau hanesyddol y mae posibilrwydd o'u hadfer
	E. Ystyried sut y dylid defnyddio'r stoc adeiladau lleol fel asedau cymunedol (eglwysi, canolfannau, neuaddau glowyr ac ati)
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	F. Beth sydd gan y cymunedau mewn cyffredin, beth yw datrysiad synhwyrol a chynaliadwy?
	Ff. Gweithgareddau wedi'u rhwydweithio
<b>5.3 CYFLEUSTERAU A HYFFORDDIANT</b>	
Cyfle Hir Dymor	A. Gwneud cyfleusterau presennol yn gynaliadwy a datblygu nhw ar gyfer y dyfodol (gan eu gwneud yn asedau cynaliadwy)
	B. Datblygu cyfleusterau sy'n gweddu i gyfleusterau a gweithgareddau presennol gysylltiedig ag apêl a chymeriad yr ardal
	C. Canol trefi - denu pobl yn ôl
	Ch. Dylunio ar gyfer y dyfodol - bywyd dylunio a chynllunio hirach (asedau a all esblygu)
Cyfle Tymor Byr	D. Cyfnewid llyfrau
	Dd. Hyrwyddo manau gwyllo, gyda dehongli ar gael
	E. Diogelwch mewn parciau a manau lleol
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	F. Sut i gynllunio ar draws yr ardal i gydweddu â'i gilydd ac osgoi dyblygu
	Ff. Cynnal a chadw cyfleusterau pwysig
Potensial am Broffil Uchel	G. Adfer adeiladau hanesyddol - at ddefnydd y gymuned ac ymwelwyr
	Ng. Canolfannau gweithgareddau/cyfleuster amlddiben awyr agored
	H. Hyb/cyfleuster Cymraeg
	I. Adfywio safleoedd hen waith haearn/powdwr gwn
	
<b>6. YR AMGYLCHEDD</b>	
<b>6.1 GWELLIANNAU AMGYLCHEDDOL A PHROSIECTAU CADWRAETH</b>	
Cyfle Hir Dymor	A. Amgylchedd sy'n rhydd rhag tipio sbwriel, baw cŵn, llosgi glaswelltiroedd
	B. Gwell rheolaeth amgylcheddol gan gynnwys rheoli llwybrau, taclo rhywogaethau ymwthiol, cynefinoedd i beillyddion, gwell rheolaeth dorlannol
	C. Datblygu cysyniad ar draws yr ardal ar gyfer teithiau cerdded natur, hanesyddol, diwylliannol i ddefnyddio a gwella'r amgylchedd lleol
	Ch. Defnyddio'r amgylchedd i addysgu
	D. Mae prosiectau'n cydnabod addasu i'r hinsawdd



	Dd. Sicrhau bod gwelliannau i gynefinoedd a'r amgylchedd yn ystyried cyfleoedd a photensial twristiaeth
Cyfle Tymor Byr	E. Mwy o finiau
	F. Cynllun grantiau bach ar gyfer prosiectau natur lleol e.e. rheoli coetiroedd ac ati
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	Ff. Cynnal a chadw
	G. Adfer ac ail-greu cynefinoedd brodorol hanesyddol
	Ng. Prosiectau cadwraeth/rheolaeth ar raddfa ehangach sy'n cynnwys perchnogion tir, grwpiau cymunedol a chadwraeth yn gweithio ar y cyd
Potensial am Broffil Uchel	H. Opsiynau llety creadigol - tai coeden er enghraifft
	I. Ysbyty ystlumod
	L. Prosiect ymchwil rhywogaethau e.e. bodaod y mêl, ystlumod ac ati
	Ll. Olwynion dŵr ac enghraifft o ysgol bysgod ym Mharc Cwm Dare
<b>6.2 HYRWYDDO CYFLENWI LLEOL/PROSIECTAU CREU CYNEFINOEDD</b>	
Cyfle Hir Dymor	A. Datblygu cadwyn bwyd lleol, gan gynnwys bwydydd arbenigol e.e. ffyngau a mêl
	B. Gwella addysg a dealltwriaeth o fwyd a'i darddiad (rôl natur)
	C. Asedau natur sy'n cael eu gwerthfawrogi a'u datblygu ar draws yr ardal
	Ch. Paratoi'r amgylchedd lleol at y dyfodol e.e. coed brodorol, blodau gwyllt, cynefinoedd rhywogaethau allweddol
	D. Cynnwys y gymuned ac ymwelwyr ac ennyn eu diddordeb yn yr amgylchedd naturiol
	Dd. Rhoi pobl mewn cysylltiad â'u hamgylchedd
Cyfle Tymor Byr	E. Cyflogi staff i alluogi mwy o wirfoddoli ac i roi hwb i'r gwaith
	F. Adeiladu ar waith presennol a'i ddatblygu
	Ff. Llwyfannau gwyllo natur
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	G. Rhaglen teithiau tywysedig ar draws yr ardal bob blwyddyn
	Ng. Creu ardaloedd addysg
Potensial am Broffil Uchel	H. Creu rhwydwaith prosiectau cynefinoedd amrywiol (ffermydd coedwig, gerddi synhwyraidd, cynefinoedd camlas, plannu coed) i greu cyfleoedd swydd, hamdden ac addysg
<b>6.3 DATBLYGU A CHYNNAL A CHADW MANNAU GWYRDD</b>	
Cyfle Hir Dymor	A. Cyfleusterau hamdden mewn cymunedau a ddefnyddir gan blant ifainc a theuluoedd, pobl oedrannus ac anabl - defnydd gydol oes
Cyfle Tymor Byr	B. Cynllunio cymunedol
	C. Cronfa grantiau bach i ddatblygu manau gwyrdd diogel
	Ch. Cynnal a chadw
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	D. Rhwydwaith rhandiroedd sy'n gysylltiedig â phrynu a gwerthu cynnyrch
Potensial am Broffil Uchel	Dd. Mae pob cymuned yn datblygu cynllun ar gyfer y dyfodol
<b>6.4 YNNI A CHYNHYRCHU TRYDAN GRADDFA FACH</b>	
Cyfle Hir Dymor	A. Gwneud y cymoedd yn ardal sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ac yn ddarbodus, taclo'r stoc tai, gosod prosiectau ynni adnewyddadwy a lleihau defnydd trwy newid ymddygiad
Cyfle Tymor Byr	B. Addysg am ynni
	C. Ailddefnyddio olew coginio (e.e. fel tanwydd)

Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	Ch. Defnyddio pŵer pwrcasu ynni'r gymuned
	D. Ystyried sut y gallai cynlluniau i ostwng biliau wneud cyfleusterau cymunedol yn fwy fforddiadwy (ynni dŵr a'r haul ar raddfa fach ac ati)
Potensial am Broffil Uchel	Dd. Prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol
	E. Cyllid 0% i wneud cartrefi'n fwy gwyrdd, gan gynnwys uwchraddiadau technoleg
	F. Datblygu economi tanwydd pren
	Ff. Canolfan ddata, gan adeiladu ar gryfder isadeiledd ynni'r ardal
<b>6.5 GWEITHGAREDDAU AMGYLCHEDDOL I UNIGOLION EU MWYNHAU</b>	
Cyfle Hir Dymor	A. Creu ymdeimlad o berchnogaeth gymunedol ar eu hamgylchedd fel ased i fynd iddo am hamdden, dysgu a mwynhad (e.e. eco-ddosbarthiadau, gweithgareddau coetir, rhwydweithiau beicio, cerdded trwy natur a chyfleusterau pobl ifainc)
Cyfle Tymor Byr	B. Adfer parciau a mannau agored segur neu adfeiliedig
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	C. Llwybrau beicio sy'n cysylltu cymunedau fel ffordd o gael mynediad at wasanaethau, swyddi a chyfleusterau hamdden
Potensial am Broffil Uchel	Ch. Rhaglenni dysgu awyr agored sy'n cefnogi'r cwricwlwm cenedlaethol
<b>7. TWRISTIAETH</b>	
	
<b>7.1 TWRISTIAETH A HAMDDEN</b>	
Cyfle Hir Dymor	A. Strategaeth dwristiaeth hir dymor i'r ardal
	B. Creu amrywiaeth o gynigion llety a lletygarwch ar draws yr ardal i gadw gwerth twristiaeth yn yr economi leol
	C. Defnyddio treftadaeth leol i roi cymunedau lleol ar y map (gan ddechrau o bentrefi lleol a mannau o ddiddordeb)
	Ch. Defnyddio cyfleusterau lleol fel "canolfannau ymwelwyr" - ystyried hyn wrth ddylunio a chynllunio
	D. Defnyddio'r agosrwydd at y Parc Cenedlaethol
Cyfle Tymor Byr	Dd. Marchnata'r cynnig ardal gyfan yn well (integredig)
	E. Rhaglen weithgareddau ar draws yr ardal i ddenu ymwelwyr newydd a'r rhai sy'n dychwelyd
	F. Arwyddion a dehongli gwell yn yr ardal leol a defnyddio technoleg amlgyfrwng (apiau, ffilmiau ac ati)
	Ff. Creu digwyddiad crefftiau neu lwybr crefftiau
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	G. Cynllun talebau lleol i annog pobl leol i ddefnyddio cyfleusterau lleol
	Ng. Teithiau cerdded a rhedeg pellter hir
Potensial am Broffil Uchel	H. Cysyniad Cymoedd Gweithgar - gwneud yr ardal yn hyb awyr agored, gan fanteisio i'r eithaf ar ei lleoliad (rhwng y Bannau a hybiau'r Arfordir) ac adeiladu ar lwyddiannau presennol (beicio, rhedeg, cerdded ac ati)
	I. Adrodd stori ynni'r ardal a datblygu'r potensial twristiaeth
<b>7.2 BUSNES TWRISTIAETH A HAMDDEN</b>	
Cyfle Hir Dymor	A. Opsiynau llety twristiaeth gwell yn y cymoedd, e.e. trawsnewid hen adeiladau i westai bach

	B. Ennyn diddordeb busnesau mewn dod o hyd i ddatrysiadau o ran cyfleusterau lleol
Cyfle Tymor Byr	C. Llwybr celf a chreffft ar draws y cymoedd
	Ch. Llyfryn sy'n hyrwyddo nwyddau celf a chreffft o'r cymoedd
	D. Darparu cyllid i gynorthwyo gyda digwyddiadau celf lleol, wedi'u cynnal gan ffioedd aelodau
	Dd. Llyfryn sy'n hyrwyddo cynnyrch lleol
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	E. Creu rhwydwaith bywiog o glybiau ac orielau creadigol i ddenu ymwelwyr ac ennyn diddordeb pobl leol yn y celfyddydau a diwydiannau creadigol
	F. Cydlynwyr i weithio ar draws yr ardal i gysylltu'r ddarpariaeth

### 7.3 CHWARAEON A HAMDDEN I BOBL LEOL

Cyfle Hir Dymor	A. Cymunedau gyda chyfleusterau chwaraeon/ardaloedd chwarae i bob oedran sy'n cael ei ddefnyddio a'u cynnal a chadw'n dda
	B. Creu amgylchedd sy'n addas i deuluoedd
Cyfle Tymor Byr	C. Adnewyddu cyfleusterau dirywiedig presennol
	Ch. Uwchraddio cyfleusterau i arwynebau trwy gydol y flwyddyn arloesol nad oes angen eu cynnal a chadw cymaint
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	D. Gweithredu cynllun bancio amser
Potensial am Broffil Uchel	Dd. Creu "gwerysll haf y cymoedd"

## 8. DIWYLLIANT

### 8.1 DIWYLLIANT A THREFTADAETH

Cyfle Hir Dymor	A. Mae diwylliant a threftadaeth leol yn cael eu gwerthfawrogi fel adnodd lleol ar gyfer addysg, hunanfyneiant a thwristiaeth
	B. Creu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau cyfrwng Cymraeg cyn-ysgol
	C. Hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Gymreig trwy addysg
Cyfle Tymor Byr	Ch. Cefnogaeth preswyliaethau ar gyfer artistiaid i annog cyfranogiad lleol mewn gweithgareddau artistig creadigol
	D. Cefnogi digwyddiadau a gweithgareddau diwylliant a threftadaeth presennol
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	Dd. Cyflogi Swyddog Prosiect i gydlynu coladu asedau presennol a rheoli rhwydwaith gwirfoddolwyr o ddigwyddiadau
Potensial am Broffil Uchel	E. Estyn y geo-barc i'r cymoedd

### 8.2 CELFYDDYDAU A CHERDDORIAETH

Cyfle Hir Dymor	A. Creu ystod o gyfleoedd cynaliadwy a diwylliannol yn yr ardal (e.e. Cwiltio, grwpiau theatr, ffilm, traddodiad corawl)
	B. Annog cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol
Cyfle Tymor Byr	C. Uwchraddio/darparu cyfarpar cerddorol ar gyfer grwpiau sefydledig
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	Ch. Creu Swyddog Treftadaeth i reoli archifau ar draws yr ardal

### 8.3 DIGWYDDIADAU A GWYLIAU

Cyfle Hir Dymor	A. Calendr digwyddiadau, a hysbysebwr yn dda, ar draws yr ardal a'r flwyddyn i bobl leol ac ymwelwyr
Cyfle Tymor Byr	B. Cydlynu hyrwyddo digwyddiadau lleol ar-lein
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	C. Prynu cyfarpar trwy gynllun rhannu cyfarpar teithiol i'r cymoedd er mwyn gwneud cynnal digwyddiadau'n rhatach ar draws yr ardal e.e. pebyll mawr, stondinau cludadwy, potensial am fusnesau gwib
Potensial am Broffil Uchel	Ch. Ardal sydd â'r isadeiledd ac offer i alluogi cynnal calendr llawn ac amrywiol o ddigwyddiadau - o farchnadoedd lleol i gynnal gwyliau chwaraeon, cerdd a bwyd.

#### 8.4 CEFNOGI'R DIWYDIANNAU CREADIGOL

Cyfle Hir Dymor	A. Troi'r ardal yn hyb ffilmiau, gan adeiladu ar ddoniau lleol ac asedau presennol a chysylltiadau ar arbenigedd gerllaw
Cyfle Tymor Byr	B. Creu ffilmiau lleol a choeliadwy o'r ardal i ddatblygu doniau lleol a rhoi cyfle i bobl leol gyrchu'r diwydiant
	C. Codi ymwybyddiaeth leol gyda phobl ifainc o gyfleoedd i weithio yn y sector ar eu carreg drws
	Ch. Gweithdai mewn ffilm i bobl ifainc
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	D. Creu mas critigol o ddoniau lleol i wasanaethu sector ffilm annibynnol ar draws yr ardal
Potensial am Broffil Uchel	Dd. Mae diwydiant ffilm/teledu lleol yn tyfu'n seiliedig ar gryfderau presennol yn y sector

## 9. YSGOLION A HYFFORDDIANT

### 9.1 GWASANAETHAU ADDYSG

Cyfle Hir Dymor	A. Darparu cyfleoedd dysgu gydol oes priodol sy'n diwallu anghenion y gymuned ac yn codi dyheadau
Cyfle Tymor Byr	B. Darparu cyfleoedd dysgu digidol er mwyn i bob oedran fedru cyrchu gwasanaethau allweddol
	C. Defnyddio cyllid Pen y Cymoedd i estyn a gwella cynlluniau'r llywodraeth yn yr ardal (e.e. prentisiaethau, "Dechrau'n Deg", llythrennedd ac anghenion arbennig)
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	Ch. Darparu ystod ehangach o gyfleoedd dysgu i bob oedran ac angen o fewn y gymuned (arddulliau dysgu a datblygu sgiliau gwahanol)

### 9.2 ADDYSG GYNALIADWY

Cyfle Hir Dymor	A. Ennyn diddordeb am a newid ymddygiad ynni a chynladwyedd trwy addysg
	B. Datblygu canolfannau addysg/hyfforddiant awyr agored presennol i ddatblygu cynnig mwy amrywiol
Cyfle Tymor Byr	C. Cefnogi mudiadau presennol i ddarparu cynnig yn yr ardal
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	Ch. Datblygu cynlluniau peilot o fodelau effeithlonrwydd ynni a newid ymddygiad
	D. Cyfleusterau addysg awyr agored gwell mewn ysgolion lleol e.e. gerddi, blychau tyfu, canopiau ac ati – trosoli prynu graddfa fawr?

### 9.3 DATBLYGU SGILIAU BYWYD A HYDER

Cyfle Hir Dymor	A. Cyfleusterau ieuencid cynaliadwy fforddiadwy a ddefnyddir yn helaeth
-----------------	---

Cyfle Tymor Byr	B. Canolfannau ar draws y cenedlaethau
	C. Mentora cymheiriaid
Potensial wedi'i rwydweithio, ar draws ardaloedd	Ch. Cynlluniau i ymdrin â hunan-barch, iechyd meddwl
Potensial am Broffil Uchel	D. Ymchwilio i ddatrysiadau newydd

